

Presennol:	Huw Jones Carol Bell John Davies Aled Eirug Hugh Hesketh Evans Guto Harri Marian Wyn Jones Siân Lewis Elan Closs Stephens	(Cadeirydd) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod)
Staff S4C:	Ian Jones Dafydd Rhys Phil Williams Bethan C. Williams Carys Evans Huw Marshall	(Prif Weithredwr) (Cyfarwyddwr Cynnwys) (Ysgrifennydd yr Awdurdod) (Cynorthwydd i Ysgrifennydd yr Awdurdod) (Pennaeth Dadansoddi) – ar gyfer eitem 7 (Rheolwr Digidol) – ar gyfer eitem 5
Ymddiheuriadau	Elin Morris	(Cyfarwyddwr Polisi Corfforaethol a Masnachol)

1. **Croeso a Datganiadau diddordeb**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a gofynnodd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb.

Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran yr Awdurdod ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.

2. **Cofnodion cyfarfod 385** (a gynhaliwyd ar 12.03.15)

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod rhif 385.

Cymeradwyodd yr Awdurdod y cofnodion.

3. **Materion yn codi o'r cofnodion**

Adroddiad Tracio Delwedd SPA Future Thinking

Cyfeiriwyd at adroddiad SPA a chyflwyniad Jon Priest i gyfarfod yr Awdurdod ym mis Mawrth a nodwyd y byddai cyfle i drafod casgliadau'r gwaith ymchwil yn ystod y drafodaeth am yr Adroddiad Cynnwys a Dadansoddi.

4. **Adroddiad y Cadeirydd**

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad a chyfeiriodd yn benodol at y materion

canlynol.

Cyfarfod Cadeiryddion a Phrif Weithredwyr DCMS

[**Crynodeb:** Nododd y Cadeirydd ei fod wedi mynychu'r cyfarfod uchod.]

Ail benodiad y Cadeirydd

Nodwyd fod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi cyhoeddi ailbenodiad y Cadeirydd am dymor o bedair blynedd hyd Fehefin 2019. Llongyfarchwyd HJ ar ei ailbenodiad.

5. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

Is-deitlau agored ar y iPlayer

Adroddwyd nad oedd yn bosib cynnwys is-deitlau agored ar holl gynnwys S4C ar yr iPlayer, ond byddai unrhyw raglen gydag is-deitlau agored (e.e. ailddarllediadau naratif), sy'n cael ei darlledu ar S4C yn ymddangos ar yr iPlayer gydag isdeitlau.

Adolygiad Gwariant

[**Crynodeb :** Trafodwyd gohebiaeth gan Ysgrifennydd Parhaol y DCMS ynglŷn â'r Adolygiad.]

Atodiad 2a – Strategaeth Ddigidol

Croesawyd Huw Marshall i'r cyfarfod.

Rhoddodd IHJ gyflwyniad i'r broses o baratoi'r Strategaeth Ddigidol drafft. Esboniodd fod y gwaith o ddatblygu'r strategaeth wedi bod ar y gweill ers haf 2014. Roedd y strategaeth yn ymateb i newidiadau ym myd technoleg sy'n effeithio ar batrymau gwyllo'r gynulleidfa o ran ffragmenteiddio'r gwyllo, gwyllo ar lwyfannau newydd ac ymateb i batrymau a thueddiadau gwahanol o fewn carfanau oedran gwahanol y gynulleidfa.

Roedd bwriad i sicrhau fod S4C yn darparu cynnwys sy'n berthnasol i elfennau gwahanol y gynulleidfa, ar lwyfannau sy'n gyfarwydd iddynt ac i sicrhau fod S4C yn cyfathrebu gyda'r gynulleidfa gan ddefnyddio dulliau cyfoes a fydd yn caniatáu personoli'r profiad o ddefnyddio a rhyngweithio gyda chynnwys a gwasanaethau S4C.

[**Crynodeb :** Trafodwyd yr her o geisio denu pobl ifanc i wyllo.]

Nodwyd fod defnyddio data am dueddiadau gwyllo'r gynulleidfa yn greiddiol i'r strategaeth, a bod grŵp data mewnol wedi'i greu er mwyn datblygu cynlluniau ar gyfer hwyluso marchnata a chyfathrebu sydd wedi ei dargedu i ddiddordebau unigolion.

Roedd IHJ wedi bod yn ystyried yr adnoddau staffio fyddai eu hangen er mwyn gweithredu'r strategaeth ac esboniodd ei fod wedi asesu'r sgiliau sydd eisoes ar gael o fewn S4C. Holwyd a fyddai modd ail-hyfforddi aelodau presennol y staff, neu a ddylid ystyried ceisio staff gyda phrofiad a sgiliau digidol er mwyn

gweithredu'r strategaeth. Esboniodd IHJ ei fod o'r farn bod modd hyfforddi aelodau presennol o'r staff i ddatblygu sgiliau digidol. Nododd ei fod yn bwriadu creu dwy swydd newydd, sef rheolwr cyfryngau cymdeithasol ac SEO, a chydlynedd cynnwys digidol.

Cyflwyniad y Strategaeth Ddigidol drafft gan Huw Marshall

Cyflwynodd HM y Strategaeth Ddigidol drafft a chyfeiriodd yn benodol at y materion isod.

Cyfeiriodd at y bwriad i dargedu pobl ifanc a grwpiau oedran sydd ddim yn defnyddio S4C yn gyson ar hyn o bryd. Nodwyd fod bwriad i ddefnyddio cynnwys addysgol, gemau, cynnwys ffurf fer, rhyngweithio gyda'r gynulleidfa a phersonoli'r gwasanaeth ar eu cyfer. Roedd bwriad hefyd i weithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau ac adrannau'r llywodraeth er mwyn gwireddu potensial cynnwys digidol S4C.

Ychwanegodd fod cydweithio gyda'r gymuned addysg, gan gynnwys adran addysg y Llywodraeth, yn hynod bwysig a'r bwriad oedd sicrhau y byddai cynnwys S4C yn cael ei ddefnyddio ym mhob ystafell ddosbarth yng Nghymru.

Cyfeiriodd ar nifer o enghreifftiau o gynlluniau digidol sydd eisoes dan ystyriaeth gan gynnwys creu bwletinau tywydd penodol ar gyfer ysgolion fyddai'n cyd-fynd gyda'r cwricwlwm ym meysydd daearyddiaeth, gwyddoniaeth a'r Gymraeg, a chynyddu'r defnydd o fideo ar Facebook yn dilyn llwyddiant clip **Dim Byd** a ddenodd dros 60,000 o sesiynau gwyllo mewn pythefnos. Mae sicrhau presenoldeb addas ar lwyfannau poblogaidd newydd ar gyfer cynnwys cyflawn S4C a chynnwys ffurf fer a chynnwys sy'n benodol ar gyfer llwyfannau newydd megis Interlude a Grabio hefyd yn greiddiol i'r strategaeth.

Nododd IHJ fod gorgyffwrdd rhwng yr adolygiad o weithgareddau marchnata a'r strategaeth ac y bydd yn ystyried sut i gymhathu gweithredu'r strategaeth gydag unrhyw argymhellion a ddaw o ran datblygu'r gweithgareddau marchnata.

[Crynodeb : Esboniodd IHJ ei syniadau ar gyfer comisiynu'r cynnwys.]

Nodwyd fod bwriad o hyn ymlaen i ystyried hawliau rhyngwladol ar gychwyn y broses o drafod prosiectau newydd.

Nododd CB ei bod yn awyddus i sicrhau fod gwybodaeth am brosiectau digidol perthnasol yn cael ei rannu gyda'r Bwrdd Masnachol yn rheolaidd a nodwyd y byddai swyddogion yn ystyried sut i wneud hyn.

[Crynodeb : Cafwyd trafodaeth ar elfennau masnachol y strategaeth.]

Diolchodd y Cadeirydd i IHJ a HM am y cyflwyniad a'r Strategaeth Ddigidol ac i'r Aelodau am y drafodaeth.

Croesawyd cyfeiriad y strategaeth ddigidol a chymeradwywyd symud ymlaen i'w gweithredu heb golli amser. Byddai angen deall y berthynas gyda'r strategaeth ar gyfer marchnata. Roedd yr Awdurdod am gael cyfle'n fuan i weld pa allbynnau fyddai'n cael eu targedu, a'r ffordd y gellid mesur cyfraniad y strategaeth at ehangu cyrhaeddiad.

Mapio'r Gynulleidfa

Cyflwynwyd gylch gorchwyl ar gyfer y prosiect Mapio'r Gynulleidfa. Cyfeiriwyd at y bwriad i gynnal grwpiau trafod ymysg nifer o gynulleidfoedd gwahanol a nodwyd y dylid rhoi'r pwyslais ar grwpiau'n cynnwys lefelau rhuglder a lefelau gwyllo gwahanol siaradwyr Cymraeg.

BBC

[**Crynodeb** : Trafodwyd mater masnachol.]

Nododd IHJ ei fod wedi cynnal cyfarfod adeiladol gyda James Purnell, Cyfarwyddwr Strategaeth a Digidol y BBC a chafwyd cyfle i drafod partneriaeth S4C a'r BBC a heriau'r dyfodol gan gynnwys proses adnewyddu'r Siartr.

Adleoli/Cytleoli

Rhodddwyd diweddariad ar lafar i'r Awdurdod parthed y trafodaethau gyda'r BBC o ran Cytleoli a PDDS o ran Adleoli.

[**Crynodeb** : Adroddwyd ar amserlen datblygu canolfan y BBC.]

Holwyd a oedd amserlen y prosiect adleoli wedi newid ers cyflwyno'r amserlen wreiddiol. Esboniwyd fod oedi o 3 wythnos wedi bod, ond bod hyn yn parhau i fod o fewn yr amserlen wreiddiol.

Nododd JD y byddai cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Adleoli a Chytleoli yn cael ei gynnal ym mis Ebrill, a bod y Pwyllgor yn awyddus i dderbyn rhagor o wybodaeth am amserlenni'r prosiectau, y camau nesaf a'r math o ymrwymiad y mae BBC Cymru yn ei ddisgwyl oddi wrth S4C ym mis Mai.

Diolchwyd i IHJ am gyflwyno'r diweddariad.

6. Rhaglenni'r mis aeth heibio

[**Crynodeb** : Cafwyd trafodaeth am raglenni'r mis aeth heibio.]

7. Adroddiad Cynnwys a Dadansoddi – Chwarter 4 a'r flwyddyn 2014-15

[**Crynodeb** : Cyflwynodd DRh a CE adroddiad oedd yn cynnwys data penodol ar gyfer Chwarter 4 yn ogystal â manylion am y flwyddyn gyfan. Ymhlith yr eitemau a drafodwyd yn benodol oedd gwyllo ar-lein a pherfformiad y gwasanaethau tu allan i Gymru.]

8. Adroddiadau Gwifren Gwylwyr a Chwynion a Chydymffurfiaeth

[**Crynodeb** : Cyflwynwyd adroddiad y Wifren a'r Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth. Nodwyd fod y Pwyllgor Cwynion a Chydymffurfiaeth yn cyfarfod yn dilyn cyfarfod yr Awdurdod.]

9. Adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Cynnwys a gynhaliwyd ar 11 Mawrth

Cyflwynodd AE adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Cynnwys a gynhaliwyd ar 11 Mawrth.

Esboniwyd fod y Pwyllgor wedi ystyried asesiad o berfformiad rhaglenni BBC Cymru ar S4C yn ystod 2014/15 a'r cynllun rhaglenni ar gyfer 2015/16 a bod yr asesiad yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod ar gyfer ei ystyriaeth ac os yn briodol ei gymeradwyaeth.

Awgrymwyd y dylid cynnwys rhagor o wybodaeth parthed cyfraniad yr iPlayer i ddefnydd ar-lein cynnwys S4C yn ystod y flwyddyn.

Cymeradwyodd yr Awdurdod yr adolygiad o berfformiad rhaglenni'r BBC o dan y Bartneriaeth Strategol yn 2014-15 a'r ymateb i Gynllun Rhaglenni 2015-16 a baratowyd gan y Pwyllgor Cynnwys, gan ddirprwyo'r hawl i'r Cadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Cynnwys wneud man gywiriadau a gwelliannau cyn ei ddanfôn at Ymddiriedolaeth y BBC.

10. **Diweddariad y Polisi Rhaglenni/Eitemau Coffa**

Cyflwynwyd diweddariad o'r Polisi Rhaglenni/Eitemau Coffa a drafodwyd gan y Pwyllgor Cynnwys ac esboniwyd fod diweddariad wedi ei gynnwys yn dilyn argymhelliad y Pwyllgor.

Cymeradwyodd yr Awdurdod y polisi diwygiedig.

11. **Adroddiad o Gyfarfod y Pwyllgor Personél a Chydnabyddiaeth a gynhaliwyd ar 12 Mawrth**

Nodwyd y byddai cofnodion cyfarfod y Pwyllgor yn cael eu cylchredeg i'r Aelodau cyn cyfarfod yr Awdurdod ym mis Mai.

12. **Rhaglen Waith 2015 – 16**

Cyflwynwyd drafft diweddaraf Rhaglen Waith 2015-16 i'r Aelodau er gwybodaeth.

13. **Unrhyw Fater Arall**

Ni thrafodwyd unrhyw fater eraill.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: Dydd Iau 14 Mai 2015 yng Nghaerdydd.